# Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru

## Datganiad Cynllunio

Cyfeirnod y Cais: EN020014
Mawrth 2015

Cyfeirnod Rheoleiddio: Rheoliad 5(2)(q)
Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

## Cyfeirnod y Ddogfen 7.4.1

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd)**

**Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru**
**Adroddiad Ymgynghori**

**Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau : Ffurflenni Rhagnodedig a Gweithdrefn ) 2009**
**Mae Rheoliad 5(2)(a)**

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod y Ddogfen | 7.4.1 |
| Rhif Rheoliad | **5(2)(a)** |
| Awdur | SP Manweb |
| Dyddiad | Mawrth 2015 |
| Fersiwn | V1 |
| Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio | EN020014 |

# Datganiad Cynllunio - Crynodeb

## Cyflwyniad

1 Paratowyd y Datganiad Cynllunio hwn i gyd-fynd â chais gan SP Manweb am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer cysylltiad trydan 132 kV newydd yng Ngogledd Cymru ac sy'n croesi ffiniau gweinyddol Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

2 Diben y Datganiad Cynllunio hwn yw ystyried cydymffurfiad y Datblygiad Arfaethedig â'r polisi cynllunio perthnasol.

## Y Datblygiad Arfaethedig

3 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys Llinell Uwchben 132,000 folt (132kV) 17 cilometr o hyd o'r Is-orsaf Gasglu ger Coedwig Clocaenog ac sy'n diweddu mewn cae i'r de o Drebanog, Groesffordd Marli, sydd 1.8km o is-orsaf Llanelwy.

## Y Cynllun Ehangach

4 Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys pob un o elfennau Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru. Mae hyn am fod nifer o elfennau'n cael eu hystyried fel "Datblygiad Cysylltiedig", na ellir, yng Nghymru, eu cynnwys mewn cais am orchymyn caniatâd datblygu. Mae'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn y Datblygiad Arfaethedig yn cael eu hadnabod fel y Cynllun Ehangach ac mae'n cynnwys gwaith i'r is-orsaf bresennol yn Llanelwy a rhan o gebl tanddaear, Is-orsaf Gasglu yng Nghlocaenog, mannau storio dros dro yn yr Is-orsaf Gasglu ac yn Is-orsaf Llanelwy a nifer o wyriadau foltedd is.

## Yr Angen am y Datblygiad

5 Cafodd Coedwig Clocaenog yng Ngogledd Cymru ei henwi yn TAN 8 fel Ardal Chwilio Strategol ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy (SSA A). O ganlyniad, mae prosiectau cenhedlaeth newydd wedi cael eu hyrwyddo yn yr ardal ac mae angen cysylltiadau at y system ddosbarthu ar eu cyfer.

6 Mae pedwar o ddatblygwyr ffermydd gwynt yn yr SSA A wedi gwneud cais ac wedi cytuno ar delerau â SP Manweb i ddarparu cysylltiadau â'r rhwydwaith dosbarthu trydan ar eu cyfer. Y rhain yw:

- Fferm Wynt Coedwig Clocaenog;
- Fferm Wynt Brenig;
- Fferm Wynt Nant Bach; a
- Fferm Wynt Derwydd Bach.

7 Gan fod y Datblygiad Arfaethedig yn llinell drydan uwchben gyda foltedd sy'n fwy na, neu'n hafal i, 132kV mae'n cael ei gyfrif fel Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP). O dan Adran 37 Deddf Cynllunio 2008, mae'r broses gydsynio'n mynnu bod yn rhaid cyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO).

## Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

8 Mae Prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru wedi datblygu yn sgil nifer o gamau iteraidd, o ystyried yr opsiynau strategol i'r llwybr manwl sy'n sail i Gyfyngiadau'r Gorchymyn sy'n cynnwys y ffiniau ar gyfer y cais am y DCO.

9 Mae ystyried opsiynau eraill hefyd wedi cynnwys dylunio'r cysylltiad arfaethedig ac mae SP Manweb wedi ystyried y gofyniad i danddaearu'n unol â'r canllaw a geir yn EN-5.

## Ystyriaethau Polisi Cynllunio

10 Cynhaliwyd asesiad yn erbyn Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS EN-1 (y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni) ac EN-5 (Seilwaith Rhwydweithiau Trydan). Cynhaliwyd asesiad hefyd yn erbyn polisi cynllunio sy'n benodol i Gymru a pholisïau cynlluniau datblygu lleol y tybir sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig.

11 Mae gofyniad yn Neddf Cynllunio 2008 y dylai penderfyniad ar gais am orchymyn caniatâd datblygu gael ei wneud yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol.

12 Daeth y Datganiad Cynllunio i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â'r profion polisi cynllunio perthnasol a'i fod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.